Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 32872022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiad ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth

wrth ddefnyddio adnoddau 8

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 12

Atodiad 2 – ffi Archwilio 14

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 15

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2022 yn Awdurdod Iechyd Arbennig (yr Awdurdod) Addysg a Gwella Iechyd Cymru a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Awdurdod, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- archwiliad o'r cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Cynlluniwyd fy rhaglen waith i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gydnerthedd a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. I raddau helaeth roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan fo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd gwaith archwilio pan oedd yn ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae'n anorfod cafodd hyn effaith ar y ffordd yr ydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae wedi helpu hefyd i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn achos y ddwy flynedd flaenorol, mae cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell. Mae'r llwyddiant wrth ei gyflwyno yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion yr Awdurdod.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi gwneud sylwadau ynghylch sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi

gwneud sylwadau ar sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Awdurdod eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o’r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i chymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aed i’r afael â nhw drwy’r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 6 Chwefror 2023. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod diweddarach o'r Bwrdd a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog yr Awdurdod yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn ni'n sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Awdurdod am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o’r cyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad); fodd bynnag, fe wnes i ddod â dau fater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd er mwyn eu gwella.

13 Cyflawnodd yr Awdurdod falans ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac roedd pob trafodiad ariannol perthnasol arall yn unol ag awdurdodau ac wedi’u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, felly cyhoeddais farn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- Canfûm fod gan yr Awdurdod ymagwedd dda tuag at gomisiynu addysg iechyd a hyfforddiant yn flynyddol. Galluogir hyn drwy ymgysylltu cryf â

rhanddeiliaid, rheolaethau mewnol a phrosesau amrywio contractau. Mae lle i wella'r wybodaeth y mae'r Awdurdod yn dibynnu arni ar gyfer comisiynu ac i gryfhau’r gwaith o adrodd ar berfformiad ac ansawdd y cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

- Canfu fy asesiad strwythuredig y canlynol:
  - mae gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu da ar waith, strwythur sefydliadol sefydlog ac mae systemau sicrwydd allweddol yn parhau i aeddfedu. Ond mae lle i wella tryloywder busnes y Bwrdd.
  - mae gan yr Awdurdod drefniadau cynllunio strategol cadarn a gefnogir gan ymgysylltu pellgyrhaeddol â rhanddeiliaid, a fframwaith monitro clir a chraffu ar lefel y Bwrdd.
  - mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllid yn dda, mae ganddo systemau da o reoli ariannol, monitro a chraffu. Er ei fod yn gwella o ran adrodd ariannol, mae lle i egluro'n well canlyniadau tanwario.
  - mae gan yr Awdurdod drefniadau da i gefnogi llesiant staff ac mae'n blaenoriaethu datblygiad digidol. Ond mae lle i wella cyfraddau cydymffurfio ag Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR).

15 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

16 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn elfen hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol. Mae'r cyfrifon hyn yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifau arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi risgiau allweddol archwilio cyfrifon ar gyfer 2021-22 ac mae **Arddangosyn 4 yn Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

18 Caiff fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021-22

19 **Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad)**, **fodd bynnag, fe wnes i ddod â dau fater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar gyfer eu gwella.**

20 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n deillio o fy ngwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ynghylch y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn ar 10 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Diwygiwyd y cyfrifon ar gyfer un camddatganiad bychan iawn: i gywiro TAW a hepgorwyd o swm derbyniadwy o £22,000 gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn. |

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
| --- | --- |
| Materion arwyddocaol eraill | Rhwymedigaethau Treth Pensiwn Clinigwyr: ceir y manylion yn **Atodiad 3: Arddangosyn 4**. |

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

21 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol yr Awdurdod fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Mae’n rhaid bod gan yr Awdurdod y pwerau i gael yr incwm ac ysgwyddo’r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Awdurdod y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

22 Pan nad yw Awdurdod yn llwyddo i gyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra.

23 **Cyflawnodd yr Awdurdod falans ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac roedd pob trafodiad ariannol perthnasol arall yn unol ag awdurdodau ac wedi’u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, felly cyhoeddais farn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22.**

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

24 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Awdurdod dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni’r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau comisiynu'r Awdurdod;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

25 Mae fy nghasgliadau sy’n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Adolygu trefniadau comisiynu blynyddol

26 Roedd fy ngwaith yn archwilio pa un a oes gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer comisiynu addysg iechyd a hyfforddiant yn flynyddol yng Nghymru. Yn benodol, edrychodd fy nhîm i weld a yw comisiynu addysg iechyd a hyfforddiant yn flynyddol wedi'i gynllunio'n dda, gyda chefnogaeth systemau cadarn ac adnoddau priodol, wedi'u tanategu gan fonitro a goruchwylio perfformiad cadarn.

27 **Canfûm fod gan yr Awdurdod ymagwedd dda tuag at gomisiynu addysg iechyd a hyfforddiant yn flynyddol. Galluogir hyn gan ymgysylltu cryf â rhanddeiliaid, rheolaethau mewnol a phrosesau amrywio contractau. Mae lle i wella'r wybodaeth y mae'r Awdurdod yn dibynnu arni ar gyfer comisiynu ac i gryfhau adrodd ar berfformiad ac ansawdd y cynlluniau gweithredu er mwyn gwella.**

28 Mae gan yr Awdurdod ddull o weithredu clir ar gyfer datblygu ei gynllun comisiynu blynyddol. Mae'n cryfhau hyn ymhellach drwy alinio cynllun comisiynu â phrosesau cynllunio strategol a chryfhau capasiti'r Tîm Addysg Comisiynu ac Ansawdd (ECQ). Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid fel rhan o'r dull comisiynu blynyddol ac yn gweithio i wella hygyrchedd data meincnodi er mwyn llywio'r broses gomisiynu yn well.

29 Mae'r Awdurdod yn cymhwyso rheolaethau mewnol priodol i gefnogi comisiynu blynyddol. Ceir trefniadau clir i adolygu ac amrywio contractau addysg a hyfforddiant bob blwyddyn a gwella trefniadau ar gyfer rheoli contractau parhaus.

30 Mae'r Awdurdod yn bwriadu cryfhau'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad perfformiad integredig chwarterol, a ddylai gefnogi swyddogaeth graffu a goruchwylio'r Bwrdd ymhellach. Fodd bynnag, mae lle i wella o ran adrodd wrth y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd, drwy safoni adroddiadau sicrwydd wrth adrodd ar y gwahanol broffesiynau ym maes iechyd.

## Asesiad strwythuredig

31 Digwyddodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn parhau i ymdrin â'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

32 Roedd fy nhîm yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill. Rhoddodd fy nhîm sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

## Trefniadau llywodraethu

33 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae cymorth cynllunio sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol..

34 Canfu fy ngwaith fod gan **yr Awdurdod drefniadau llywodraethu da ar waith, strwythur sefydliadol sefydlog a systemau sicrwydd allweddol sy'n parhau i aeddfedu. Ond mae lle i wella tryloywder busnes y Bwrdd**.

35 Mae gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu da ar waith, gydag ymrwymiad clir i ddysgu. Mae ganddo dîm gweithredol sefydlog a strwythur sefydliadol y mae'n ceisio ei gryfhau'n barhaus. Mae gan y sefydliad systemau sicrwydd da ac mae wedi derbyn adroddiadau archwilio mewnol sicrwydd sylweddol ar risg a rheoli perfformiad. Mae yn y camau olaf o weithredu ei fframwaith addysg ac ansawdd hyfforddi aml-broffesiynol ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol ar lywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach, a gwella amseroldeb yr adolygiadau y mae'n eu cyflawni ar effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau.

## Trefniadau cynllunio strategol

36 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio strategol yr Awdurdod, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- trefniadau cynllunio;
- trefniadau ar gyfer gweithredu a monitro gwaith cyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

37 Canfu fy ngwaith fod gan **yr Awdurdod drefniadau cynllunio strategol cadarn a gefnogir gan ymgysylltu pellgyrhaeddol â rhanddeiliaid, a fframwaith monitro clir a chraffu ar lefel y Bwrdd**.

38 Mae gan yr Awdurdod weledigaeth glir, a gymeradwyir gan y Bwrdd a'r nodau strategol sy'n cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol allweddol a blaenoriaethau Gweinidogol. Cefnogir hyn gan drefniadau cynllunio cadarn a danategir gan graffu da ac ymgysylltiad a chyfranogiad rhanddeiliaid mewnol ac allanol pellgyrhaeddol. Mae gan yr Awdurdod hefyd fframweithiau monitro clir ar gyfer cynlluniau penodol y gellir eu cyflawni a chanlyniadau a fwriadwyd, gyda'r Bwrdd yn cael diweddariadau cynnydd chwarterol o ran cyflawni.

## Rheoli adnoddau ariannol

39 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol ;
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

40 Canfu fy ngwaith fod **yr Awdurdod yn rheoli ei gyllid yn dda, mae ganddo systemau da o reolaeth ariannol, monitro a chraffu. Er ei fod yn gwella adrodd ariannol, mae lle i egluro'n well canlyniadau tanwario**.

41 Cyflawnodd yr Awdurdod ei ddyletswydd ariannol ar gyfer 2021-22 ac mae ganddo gynllun ariannol clir sy'n ymestyn dros bum mlynedd (rhwng 2022-23 a 2026-27). Mae'n parhau i fod â systemau da o reolaeth ariannol ac mae'n cymryd camau i gryfhau'r gwasanaeth caffael y mae'n ei dderbyn. Mae adroddiadau ariannol y sefydliad yn glir ac yn destun gwaith craffu rheolaidd gan y Bwrdd. Tra bo'r Awdurdod yn y broses o wella adrodd ariannol wrth y Bwrdd, mae cyfle i egluro'n well canlyniadau tanwario.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

42 Roedd fy ngwaith yn ystyried trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant staff;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

43 Canfu fy ngwaith fod gan **yr Awdurdod drefniadau da i gefnogi llesiant staff ac mae'n blaenoriaethu datblygu digidol. Ond mae lle i wella cyfraddau cydymffurfio ag Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR).**

44 Mae gan yr Awdurdod drefniadau da ar waith i gefnogi llesiant ei staff yn ogystal â'r GIG ehangach. Fodd bynnag, nid yw cydymffurfiaeth ag Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) yn cyrraedd y targed a osodwyd. Mae'r sefydliad yn blaenoriaethu datblygiadau digidol ac yn bwriadu cael ei strategaeth ddigidol gyntaf ar waith erbyn mis Mawrth 2023. Gwelsom fod mentrau a chynlluniau digidol yn cael trosolwg lefel y Bwrdd da. Mae'r Awdurdod yn rheoli cyllideb gyfalaf fechan yn dda, er bod y risg yn is na'r hyn a welwn mewn cyrff eraill y GIG oherwydd nad oes ganddo lawer o asedau ffisegol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o drefniadau comisiynu blynyddol | Chwefror 2022 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Medi 2022 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2022 | Mawrth 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Ceir un adolygiad o archwiliad perfformiad sy'n dal ar y gweill yn yr Awdurdod. Dangosir hwn yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a amcangyfrifir |
| --- | --- |
| Adolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu | Chwefror 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2022 y ffi archwilio arfaethedig o £167,173 (ac eithrio TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf yw bod y ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru**<br>Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw achosion o reolwyr yn diystyru rheolaethau. |
| **Rhwymedigaethau Treth Pensiwn Clinigwyr**<br>Mae'r broses o weithredu'r fenter 'cynllun yn talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn parhau. Y llynedd fe wnaethom gynnwys paragraff Pwyslais ar Fater yn y farn archwilio i dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Bydd | Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach o ran y nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn ar reoleidd-dra. | Adolygodd swyddogion delerau cymhwysedd ar gyfer y cynllun a phenderfynu gan fod yn rhaid i glinigwyr 'fod wedi'u cyflogi neu â swyddogaeth glinigol sy'n darparu gofal i gleifion y GIG sy'n gofyn am gofrestru gyda chorff rheoleiddio gofal iechyd priodol', nad oes unrhyw unigolion sy'n cael eu cyflogi gan AaGIC yn dod o dan y diffiniad hwn. Cytunom ag asesiad y swyddogion ac |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| ceisiadau i'r cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, ac os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddem yn ystyried ei fod yn afreolaidd gan ei fod yn mynd yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | | nad oedd angen darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol o fewn y cyfrifon.<br>Fodd bynnag, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r dyraniad o achosion eto, fe wnaethom argymell cynnwys datgeliad o’r rhwymedigaeth ddigwyddiadol o fewn Nodyn 21.1, a dderbyniwyd gan swyddogion. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English..